

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

Trafodaethau Lles - Diolch yn fawr i chi am eich negeseuon caredig yn ystod ein trafodaethau lles dros y ffôn neu'n ddigidol, rydym yn gwerthfawrogi eich adborth positif. Os oes gennych unrhyw bryderon cofiwch rannu'r rhain gyda'ch athro / athrawes ddsbarth neu gyda mi fel Pennaeth. Rydym yn deall fod gwahanol deuluoedd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a gwerthfawr felly peidiwch â phoeni os oes gennych drefniadau gwahanol mewn lle.

Offer Cyfrifiadurol – roedd rhai ohonoch wedi nodi eich bod angen offer TGCH ychwanegol yn ystod y cyfnod anodd hwn er mwyn cwblhau eich gweithgareddau dysgu o adref. Gobeithio bellach drwy gydweithrediad yr Awdurdod Addysg Lleol a'r ysgol eich bod wedi derbyn yr offer yn ystod yr wythnos – pob hwyl gyda'r gwaith a chofiwch ddychwelyd yr offer i'r ysgol pan ddaw'r cyfnod hwn i ben.

Gweithio yn Teams – diolch yn fawr iawn i chi am ymateb mor positif i'r gweithgareddau Assignments ar Team yr wythnos hon – gwelwyd cynnydd sylweddol o safbwynt nifer y gweithgareddau a gwblhawyd.

Ap TEAMS – yn dilyn sgysiau gyda rhieni a staff wythnos hon, hoffwn eich gwneud yn ymwybodol fod yna **ap Teams** ar gael yn rhad ac am ddim o'r App Store ar gyfer ios ac android, a gall hyn wneud y broses o dynnu lluniau o waith y plant a'u llwytho i Teams lawer yn haws os yw'r ap gyda chi ar eich ffôn neu dabled. Mae teuluoedd yn gweld hyn fel ffordd dda o ryddhau'r gliniadur/cyfrifiadur ar gyfer aelodau eraill o'r teulu. **Fodd bynnag peidiwch â phoeni os nad yw'r system yn gweithio i chi, nid ydym am ychwanegu pryder i deuluoedd yn ystod y cyfnod yma.**

Eisteddfod T yr Urdd - er na fyddwn yn teithio i'r gogledd i'r Eisteddfod eleni mae'r Urdd wedi creu Eisteddfod wahanol. Mae'r cyfleoedd arferol ar gael i ganu, llefaru, dawnio, chwarae offeryn ac ati ond hefyd mae yna nifer o gystadlaethau hwyliog ychwanegol fel Anifail Anwes Talentog neu Ddawns yr Ystafell Fyw - gweler y rhestr lawn ar wefan yr Urdd <http://s4c.urdd.cymru/cy/> . Ni fydd yr ysgol yn cystadlu mewn gweithgareddau torfol eleni ond yn eich annog i gymryd rhan o'ch cartref - Mae'r dyddiad cau ar ddydd Lun, Mai'r 11eg am hanner dydd.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Diolch i Megan a Tanwen am y gwaith celf hyfryd, cadwch i wenu ffrindiau!



Cofion gore atoch, R C Williams, Pennaeth, 08/05/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping healthy and safe and that you are continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

Wellbeing Discussions - *Thank you very much for your kind messages during our telephone calls or digital wellbeing discussions, we value your positive feedback. If you have any concerns then please share these with your class teacher or with myself as Headteacher. We understand that different families do a variety of valuable and exciting activities so don't worry if you have different arrangements in place.*

Computer Equipment - *some of you indicated that you needed additional ICT equipment during this difficult time to complete your learning activities from home. We hope now that through the cooperation of the Local Education Authority and the school you have received the equipment during the week - good luck with the work and remember to return the equipment to the school when this period comes to an end.*

Working in Teams - *thank you very much for responding so positively to the Assignments activities in Teams this week - there has been significant progress in the number of activities completed.*

TEAMS app - *following conversations with parents and staff this week, I want to make you aware that there is a free Teams app available from the App Store for ios and android. This can make the process of taking photos of children's work and uploading to Teams much easier if you have the app with you on your phone or tablet. Families see this as a good way of freeing up the laptop / computer for other family members. **However, don't worry if the system doesn't work for you, we don't want to add worry to families during this time.***

Urdd Eisteddfod - *although we will not be traveling north to the Eisteddfod this year the Urdd has created a different Eisteddfod. There are the usual opportunities for singing, reciting, dancing, playing instruments etc, however there are also several additional fun competitions such as Talented Pets or Living Room Dance - see full list on the Urdd website <http://s4c.urdd.cymru/en/>. The school will not be competing in group activities this year but will be encouraging you to take part from your home - The closing date is Monday, May 11th at noon.*

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Thanks to Megan and Tanwen for the lovely artwork, keep smiling friends!

Best wishes to you, R C Williams, Headteacher, 08/05/2020

